Office for Product Safety & Standards

Aros yn saff gyda thân gwyllt

Wrth i'r tymor tân gwyllt nesáu, bydd arddangosfeydd tân gwyllt yn goleuo awyr y nos.

Gyda'r lliwiau'n tasgu, mae'n hawdd anghofio y gall tân gwyllt fod yn beryglus os na chaiff ei ddefnyddio'n gywir ac yn gyfrifol. Bydd y cyngor hwn yn helpu pawb i gadw'n saff wrth ddathlu.

Defnyddio tân gwyllt gartref?

2021

Os penderfynwch chi ddefnyddio tân gwyllt gartref, dyma sut gall pawb gadw'n ddiogel.

Prynwch gan werthwyr trwyddedig yn unig

Gwiriwch cyn prynu. Gofalwch brynu tân gwyllt gan fanwerthwr trwyddedig, mewn siop ac ar-lein. Peidiwch â phrynu tân gwyllt gan fanwerthwyr anhysbys ar wefannau yn y cyfryngau cymdeithasol. Mae'n anghyfreithlon i unrhyw un dan 18 oed brynu neu gario tân gwyllt.

Storiwch dân gwyllt yn ddiogel

Storiwch dân gwyllt yn ei ddeunydd pacio gwreiddiol. Cadwch dân gwyllt dan glo i ffwrdd oddi wrth blant ac anifeiliaid. Cadwch e'n sych ac i ffwrdd o ffynonellau gwres neu unrhyw beth a allai ei danio.

Cadwch lygad ar yr amser

Oeddech chi'n gwybod na chewch chi danio tân gwyllt rhwng 11pm a 7am? Yr unig eithriadau yw Noson Tân Gwyllt, pan fo rhaid stopio am ganol nos, a Diwali, Nos Galan a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd pan fo rhaid stopio am 1am. Gall yr amserau fod yn wahanol yn yr Alban. Chwiliwch am **'fireworks'** ar **gov.scot** i gael rhagor o gyngor.

Byddwch ystyriol

Gall tân gwyllt effeithio ar bobl ac anifeiliaid. Rhowch wybod i'ch cymdogion ymlaen llaw os ydych chi'n bwriadu defnyddio unrhyw dân gwyllt. Gofalwch ble rydych chi'n gosod tân gwyllt er mwyn tarfu cyn lleied ag y bo modd.

Gofalwch am anifeiliaid anwes

Dylai cŵn a chathod aros i mewn. Rhowch ddigon o sarn a deunydd nythu ychwanegol i anifeiliaid bach sy'n byw y tu allan gael twrio iddo.

Darllenwch bob cyfarwyddyd

Bydd y blwch tân gwyllt yn sôn am bethau pwysig fel pa mor bell i ffwrdd y mae angen i bobl sefyll ar ôl i'r tân gwyllt gael ei danio. Os nad ydych yn deall y cyfarwyddiadau a'r rhybuddion, peidiwch â defnyddio'r tân gwyllt.

Gwaredwch dân gwyllt yn ddiogel

Gofalwch fod y tân gwyllt wedi'i ddiffodd, trwythwch e mewn dŵr, yna ei roi mewn bag sbwriel ac yn y bin.

Pa dân gwyllt ga i ei ddefnyddio gartref?

Mae gwybodaeth am y categorïau i'w gweld ar y label.

Mae tân gwyllt **categori F1, F2 ac F3** ar werth i'r cyhoedd. Bydd tân gwyllt i ddefnyddwyr yn perthyn i gategori F2 neu F3 gan ddibynnu ar faint o **bellter diogelwch** sydd ei angen. Gofalwch fod gennych ddigon o le i ddefnyddio tân gwyllt yn ddiogel cyn ichi brynu. Dilynwch y Rheolau Tân Gwyllt bob amser.

I gael rhagor o gyngor, ewch i www.gov.uk/fireworks-the-law